# CYNLLUN CYDRADDOLDEB AC AMCANION STRATEGOL 2024 - 2028



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

## Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad a chefndir ..... 3

2. Ein cefndir ..... 5

3. Pwrpas y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion ..... 6

4. Dyletswyddau Statudol ..... 7

4.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ..... 7

4.2 Ymrwymiad i'r Gymraeg ..... 8

4.3 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol ..... 8

4.4 Y Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol (Cymru) ..... 8

4.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ..... 9

5. Adroddiadau a data Llywodraeth Cymru ..... 9

6. Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr 2024-2028 ..... 10

7. Datblygu ein hamcanion cydraddoldeb ..... 11

8. Y Camau Nesaf ..... 12

9. Cyflawni'r amcanion ..... 13

10. Asesu traweffaith neu botensial traweffaith ar grwpiau gwarchodedig. ..... 14

11. Sut i gysylltu â ni: ..... 14

Fformatau hygyrch ..... 14

## 1. Cyflwyniad a chefndir

Croeso i bedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y pedair blynedd nesaf (2024 hyd 2028).

Rydym yn falch o gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn sy'n amlinellu ein chwe amcan cydraddoldeb strategol. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i ffurfio cynllun gweithredu yn ystod y cyfnod hwn er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb a thegwch yn parhau i fod wrth galon y ffordd mae'r cyngor yn cynllunio, darparu a chyflawni gwasanaethau pwysig i bobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae ein hamcanion yn seiliedig ar ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) "A yw Cymru'n Decach 2018?" sy'n gosod allan y prif anghydraddoldebau yng Nghymru.

Mae'r amcanion newydd yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiadau i gydraddoldeb tra'n parhau i fod yn sefydliad cynhwysol ac effeithiol sy'n gynrychioladol o'i gymunedau ac nad yw'n goddef gwahaniaethu o unrhyw fath.

Ein nod yw darparu gwasanaethau o ansawdd da i'n preswylwyr, tra'n ystyried eu hamrywiol anghenion a sicrhau nad oes neb o dan anfantais neu'n cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu cefndir neu hunaniaeth.

Rydym yn cydnabod bod newid cynaliadwy yn cymryd amser ac ni ellir ei gyflawni ar ei ben ei hun, dyma pam rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn y fwrdeistref sirol er mwyn ymroi i'n gweledigaeth o ddod yn fwrdeistref sirol decach, sy'n hyrwyddo cyfleoedd i bawb ac sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, gweladwy i fywydau pobl yn ein cymunedau.

Trwy gynhyrchu'r cynllun hwn a'i amcanion, byddwn yn cwrdd â'n Hymrwymiadau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus statudol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn symud ymlaen gydag anghydraddoldeb, dileu unrhyw wahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu anghyfreithlon, a meithrin perthnasoedd da o fewn y gymuned gyda'n swyddogaeth mewn perthynas â'n cyflogaeth, polisi, caffael a darparu gwasanaeth.

Bydd yr amcanion yn adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud drwy gynlluniau blaenorol, drwy feithrin amgylchedd sy'n cydnabod ac yn parchu amrywedd a nodweddion unigryw unigolion, waeth beth fo'u nodweddion neu gefndiroedd.

Ni fydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion yn cael eu rhoi ar waith ar eu pen eu hunain. Maent wedi'u datblygu a'u cyflawni ochr yn ochr â'n Strategaeth Gyfranogi ac Ymgysylltu a Safonau'r Gymraeg fydd yn nodi ein hymrwymiad i allu

sicrhau dyfodol mwy cynhwysol a thecach i bawb. Mae'r amcanion hefyd wedi eu cysylltu gyda'n Cynllun Corfforaethol 2023-28.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau gan bawb sydd wedi cyfranogi i ddatblygu'r gyfres hon o amcanion.

Os hoffech chi gymryd rhan a chyfrannu at barhau i adolygu ein blaenoriaethau fydd yn lleihau anghydraddoldebau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae croeso i chi gysylltu â ni (gweler tudalen 15 am fanylion).

Arweinydd y Cyngor, Huw David
Y Prif Weithredwr, Mark Shephard

## 2. Ein cefndir

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn ardal amrywiol a bywiog gyda 145,760 o breswylwyr a thros dair miliwn o ymwelwyr yn flynyddol. Fel un o gyflogwyr mwyaf a'r darparwyr mwyaf yn y fwrdeistref sirol rydym yn cydnabod ein rôl unigryw a'n sefyllfa ddylanwadol o fewn yr ardal a'r cyfraniad allwn ni ei wneud o ran datblygu cymunedau cynhwysol a hyderus.




2.2 Fel darparwyr gwasanaeth cyhoeddus rydym yn cydnabod bod gennym ran allweddol i'w chwarae wrth wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Gan hynny, byddwn yn parhau i ymdrechu i gwrdd â'n gweledigaeth o weithredu fel "Un cyngor sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau". Bydd cyflawni hyn yn gwella ansawdd bywyd pawb sy'n byw ac yn gweithio yn y fwrdeistref sirol fel yr amlinellir yn ein Cynllun Corfforaethol.

2.3 Mae ein hamcanion cydraddoldeb strategol newydd yn adnabod sut y byddwn yn cryfhau ac yn symud ymlaen gyda chydraddoldeb ar draws Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr dros y pedair blynedd nesaf. Er enghraifft, byddwn yn parhau i wreiddio cydraddoldeb ym mhob rhan o'n sefydliad er mwyn sicrhau bod newid ystyrlon yn cael ei gyflawni. Er mwyn cefnogi ein staff i gyflawni hyn, rydym yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb corfforaethol, sy'n orfodol, nid dim ond ar gyfer dechreuwyr ond pob aelod o'r awdurdod. Yn ychwanegol at hyn, mae Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i'r 'Cynllun cyflogwr hyderus gydag Anabledd', sy'n annog cyflogwyr i feddwl yn wahanol ynghylch anabledd a chymryd camau i wella recriwtio a chadw pobl anabl, yn ogystal â'u datblygu yn y gweithle.

*Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi bod yn gysylltiedig gyda'r prosesau ymgysylltu er mwyn datblygu ein hamcanion, ac rydym yn edrych ymlaen at barhau ar y daith hon gyda chi wrth i ni eu cyflawni.*

## 3. Pwrpas y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion

3.1 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion bob pedair blynedd, sy'n gorfod dangos sut mae'r Cyngor yn gallu cyfrannu at gymdeithas decach drwy sicrhau bod cydraddoldeb yn symud yn ei flaen a thrwy feithrin perthnasoedd da yn ein gweithgareddau dyddiol.

3.2 Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn darparu amddiffyniad rhag gwahaniaethu ar gyfer naw grŵp o nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn:

**Oed**
Person sy'n perthyn i grŵp oedran penodol (felly byddai pobl 38 oed yn grŵp oedran) neu ystod oedran (er enghraifft rhai sy'n 16-24 oed).

**Anabledd**
Person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar eu gallu i ymgymryd â gweithgareddau arferol, bob dydd.

**Ailbennu Rhywedd**
Y broses lle mae person yn newid o un rhyw i'r llall. Gall hyn fod mewn unrhyw ffordd maent yn ei ddymuno a does dim angen iddo olygu ymyriad meddygol gan ei bod yn broses bersonol. Mae cyfeiriad at berson trawsrywiol yn cyfeirio at berson sydd gan y nodweddion gwarchodedig o ailbennu rhywedd.

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**
Mae priodas yn uniad rhwng dau berson sy'n cael ei gydnabod yn ffurfiol, gall hyn fod yn ddyn neu'n fenyw neu gwpwl o'r un rhyw. Gall cyplau o'r un rhyw hefyd gael cydnabod eu perthynas fel partneriaeth sifil.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**
Mae beichiogrwydd yn cael ei ddiffinio fel cyflwr neu gyfnod o fod yn feichiog neu ddisgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth.

**Hil**
Mae hil yn cynnwys lliw, cenedligrwydd a tharddiad ethnig neu genedlaethol. Mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig hil, mae hyn yn cyfeirio at berson sydd o grŵp hil arbennig neu bersonau o'r un grŵp hil.

**Crefydd neu gred**
Mae crefydd yn cyfeirio at unrhyw grefydd neu ddiffyg crefydd. Mae cred yn cyfeirio at unrhyw grefydd neu gred athronyddol neu ddiffyg crefydd. Er mwyn iddo gael ei ystyried yn gred, dylai effeithio'r ffordd rydych chi'n byw eich bywyd. Mae'r nodwedd yn cyfeirio at berson o grefydd benodol neu gred, neu at bersonau sydd o'r un grefydd neu gred.

**Rhyw**
Gall hyn gyfeirio at naill ai wryw neu fenyw, neu grwpiau o ddynion a menywod.

**Cyfeiriadedd Rhywiol**
Cyfeiriadedd rhywiol yw atyniad rhywiol unigolyn tuag at ei ryw ei hun, y rhyw arall neu'r ddau ryw.

3.3 Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion yn gweithredu fel map ffordd ar gyfer gyrru cydraddoldeb, diddymu gwahaniaethu a meithrin perthnasoedd da. Mae'n alinio gyda gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn dangos ein hymrwymiad i hyrwyddo cynhwysiant yn ogystal â bod yn erfyn ar gyfer atebolrwydd, gan sicrhau ein bod yn parhau i fod yn dryloyw ac atebol yn ein hymdrechion i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywedd. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion yn cael ei adolygu'n flynyddol, er mwyn dangos cynnydd yn erbyn camau gweithredu, ymgorffori meysydd gwaith newydd i'r cyngor, newid i'r ddeddfwriaeth a datblygiad unrhyw amcanion newydd yn ystod oes y cynllun.

## 4. Dyletswyddau Statudol

Mae'r fframwaith cyfreithiol a ddisgrifir yn yr adran hon yn gweithredu fel sylfaen i amcanion cydraddoldeb Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr.

### 4.1 Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol

Nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw sicrhau ein bod yn ystyried anghenion pob unigolyn wrth ymgymryd â'n gwaith dyddiol, wrth ddatblygu polisi, darparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'r cyhoedd a'n gweithlu.

Mae ymrwymiadau'r ddyletswydd gyffredinol yn cynnwys:

## 4.2 Ymrwymiad i'r Gymraeg

Mae hyrwyddo a defnyddio'r Iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys o fewn gofynion Mesur y Gymraeg 2011 yn hytrach na'r Ddeddf Gydraddoldeb. Fodd bynnag, yng Nghyngor Pen-y-bont ar Ogwr rydym yn ystyried gofynion yr Iaith Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Gydraddoldeb er mwyn annog dull cydweithredol o edrych ar anghenion pob cymuned wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

## 4.3 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru yn 2021. Ei nod yw gwella'r broses o wneud penderfyniadau a helpu'r rhai sydd o dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Mae bod dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu bod â lefel isel o gynilion neu incwm o'i gymharu gydag eraill yng Nghymru, gan ei gwneud yn fwy anodd cael mynediad at wasanaethau sylfaenol a chyfleoedd. Gall hyn arwain at anghydraddoldeb canlyniad, er enghraifft lefelau is o iechyd da, gwaith sy'n talu llai, cyrhaeddiad addysgol is a chynnydd yn y perygl o fod yn ddioddefwr trosedd. Rydym angen deall sut gall y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud gynyddu neu leihau cyfleoedd i bobl sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Rydym ni'n gwneud hyn drwy gynnal asesiadau traweffaith cydraddoldeb bob tro rydym yn creu polisïau, rhaglennu neu'n gwneud penderfyniadau a all gael effaith ar ein preswylwyr.

## 4.4 Y Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol (Cymru)

Yn ogystal â chwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol mae'n rhaid i sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys y cyngor, gwrdd â'r dyletswyddau penodol canlynol:

- Gosod Amcanion Cydraddoldeb a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Ymgysylltu gyda phobl mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig.
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfio gyda'r Ddyletswydd Gyffredinol.
- Cyhoeddi gwybodaeth am fonitro cyflogaeth yn flynyddol.
- Sicrhau bod ein gweithlu yn gwybod ac yn deall beth yw ein dyletswydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Rhoi Asesiadau Traweffaith Cydraddoldeb o bolisïau ac arferion perthnasol ar waith.
- Mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn tâl.
- Sefydlu amodau perthnasol er mwyn gallu cwrdd â'r ddyletswydd gyffredinol o ran prosesau caffael.
- Adolygu'r broses ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Cydraddoldeb.

- Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol hefyd yn cefnogi'r Cyngor i gwrdd â dyletswyddau statudol eraill sy'n cael eu gosod o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler 4.5).

### 4.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn cryfhau trefniadau llywodraethiant cyfredol ar gyfer gwella lles Cymru er mwyn sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu cwrdd gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy.

Mae'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus wella lles Cymru. Rydym angen cytuno ar gyfres o amcanion llesiant a'u cyhoeddi er mwyn dweud wrthych chi sut y byddwn yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. I ddarganfod mwy o wybodaeth am ein hamcanion llesiant gweler ein Cynllun Corfforaethol.

## 5. Adroddiadau a data Llywodraeth Cymru

5.1 Mae nifer o strategaethau, adroddiadau a setiau data Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth ar gyfer datblygiad y Cynllun Strategol Cydraddoldeb ac Amcanion er mwyn adlewyrchu beth sy'n digwydd ar lefel genedlaethol, gan gynnwys:

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LHBTC+
- Strategaeth Cymraeg 2050
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Canllawiau Hanfodol
- Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-2023
- Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2022
- Trosolwg o'r Farchnad Waith: Rhagfyr 2023
- Ystadegau'r Farchnad Waith (Arolwg Poblogaeth Flynyddol) 2022-23
- Adroddiad 'Drws ar Glo - datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19'
- Darpariaeth tai fforddiadwy 2022-23
- Strategaeth Genedlaethol trais yn erbyn menywod cam-drin domestig a thrais rhywiol 2022-26
- "A yw Cymru'n Decach? 2018" - Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae data sydd wedi'i gasglu o'r rhan wedi dylanwadu'n bositif ar ein blaenoriaethau, megis cynhyrchu cynllun gweithredu LHBTC+ yn ogystal â chynllun gweithredu Cymru Wrth-Hiliol. Bydd y rhain yn dod o dan yr amcan i hyrwyddo gweithlu mwy cynhwysol ar gyfer rhai â nodweddion gwarchodedig.

## 6. Amcanion Cydraddoldeb Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr 2024-2028

Cafodd y gwaith o ddatblygu ein hamcanion ei lunio a'i gytuno arno gan ein grŵp ffocws cydraddoldeb corfforaethol. Pwrpas y grŵp ffocws yw darparu trosolwg strategol ar gyfer cyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

| |
|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 1 - Mynediad at wasanaethau** |
| Gwella'r profiad a'r canlyniadau i'n cwsmeriaid, gan sicrhau bod gan bob preswylydd fynediad teg i'r gwasanaethau maent eu hangen. |
| |
| **Amcan Cydraddoldeb 2 – Amddiffyn y mwyaf bregus** |
| Sefydlu polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr sy'n diogelu ac yn cefnogi hawliau a lles ein poblogaethau mwyaf bregus mewn ffordd effeithiol, gan gynnwys plant, pobl hŷn, pobl ag anableddau, rhai sy'n profi digartrefedd neu dlodi a rhai sy'n cael mynediad ar ofal a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| |
| **Amcan Cydraddoldeb 3 - Safonau Byw** |
| Mynd i'r afael â thlodi a chefnogi byw'n annibynnol drwy ystyried effaith unrhyw benderfyniadau neu newidiadau i bolisïau o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Rhoi ystyriaeth i wasanaethau hanfodol megis Tai a digartrefedd, yr argyfwng costau byw a'r effeithiau niweidiol ar unigolion. |
| |
| **Amcan Cydraddoldeb 4 - Cyfranogiad ac ymgysylltu** |
| Annog pobl a chymunedau i gymryd rhan a dangos diddordeb mewn materion sy'n bwysig iddyn nhw, ac i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Adeiladu a chynyddu perthnasoedd o ansawdd dda gyda chymunedau er mwyn sicrhau bod ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. |
| |
| **Amcan Cydraddoldeb 5 - Dysgu** |
| Hyrwyddo mynediad cyfartal at ddysgu o ansawdd dda i bob myfyriwr, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, gallu, oedran neu gefndir ethnig. Cefnogi amrywedd cydraddoldeb a chynhwysiant. |
| |
| **Amcan Cydraddoldeb 6 - Cyflogaeth** |
| Hyrwyddo gweithlu mwy cynhwysol a gwella cyfranogiad, lles a chyfleoedd datblygu ar gyfer rhai â nodweddion gwarchodedig. |

## 7. Datblygu ein hamcanion cydraddoldeb

Mae amcanion cydraddoldeb y cyngor yn seiliedig ar y fframwaith deddfwriaethol a chynllunio sy'n cael eu nodi yn adrannau pump a chwech uchod. Yn ogystal â hyn, fe wnaethom:

7.1 Gynnal ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd, partneriaid a grwpiau cydraddoldeb ac amrywedd. Rydym wedi gofyn am eu barn ynghylch yr amcanion drafft ar gyfer 2024-2028 a gofynnwyd iddynt roi sylwadau er mwyn ein helpu i ddatblygu ein cynllun gweithredu. Yn ystod yr ymgynghoriad rydym wedi ymgysylltu gyda 400 o bobl wnaeth rannu eu safbwyntiau gyda ni. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr gyda'r amcanion arfaethedig, sydd bellach wedi eu gwneud yn derfynol yn seiliedig ar yr adborth hwn.

7.2 Cymryd i ystyriaeth yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu mewn grwpiau cydraddoldeb ac amrywedd lleol a drwy' Fforwm Cydlyniant a Chydraddoldeb Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae pynciau yn cynnwys hygyrchedd ein gwasanaethau a sut allwn ni helpu i gefnogi, hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o faterion megis troseddau casineb a Mis Hanes LHBTC.

7.3 Alinio'r amcanion cydraddoldeb gyda Chynllun Corfforaethol y Cyngor 2023-28, sydd eisoes yn adnabod blaenoriaethau'r cyngor a sut y byddwn yn gweithio ochr yn ochr gyda phobl leol a phartneriaid er mwyn darparu gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r cynllun corfforaethol yn nodi saith Amcan Llesiant y Cyngor, sef:

- Bwrdeistref Sirol lle rydym yn amddiffyn y rhai mwyaf bregus
- Bwrdeistref Sirol sydd â gwaith teg, swyddi sy'n gofyn am sgiliau ac sydd o ansawdd dda a threfi llewyrchus
- Bwrdeistref Sirol sydd â chymunedau llewyrchus yn y cymoedd
- Bwrdeistref Sirol lle rydym yn helpu pobl i gyflawni eu potensial
- Bwrdeistref Sirol sy’n ymateb i’r argyfwng hinsawdd a natur
- Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo’n rhan o’u cymuned ac yn cael eu clywed a’u gwerthfawrogi

Rhoddodd hyn y cyfle i ni ganolbwyntio ar ein hamcanion ar gyfer meysydd blaenoriaeth a oedd eisoes wedi cael eu hadnabod yn dilyn yr ymgynghoriad ar y cynllun corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn ein pobl fwyaf bregus, a oedd yn thema gyffredin gafodd ei hadnabod yn y ffurflen adborth o'r ymgynghoriad ar y cynllun corfforaethol a'r ymgynghoriad ar amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

7.4 Yn ogystal, fe wnaethom adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 a'n cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod hwn ac ystyried y cynnydd a wnaed gennym hyd yma. Rhoddodd hyn y cyfle i ni adolygu'r gwaith positif sydd wedi cael ei wneud er mwyn dod yn sefydliad mwy cynhwysol. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb rheolaidd ar draws y fwrdeistref sirol mewn partneriaeth gyda Heddlu De Cymru.
- Datblygu Tîm Addysg ac Ymgysylltu gan Addysg a Chefnogaeth Teulu sy'n darparu cefnogaeth wedi'i hintegreiddio ar gyfer amrywiaeth o ddisgyblion sydd wedi eu hadnabod gan Estyn fel disgyblion bregus neu gyda photensial i fod yn fregus.
- Adnabod cyfleoedd lles corfforol, cyfleoedd cymdeithasol a gweithio gyda Llyfrgelloedd Awen i ddarparu cefnogaeth greadigol a lles.
- Cadw ein statws Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd.
- Adolygu ein prosesau mewnol yn barhaus megis hyfforddiant staff. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio siaradwyr Cymraeg, pobl anabl, pobl sy'n ystyried eu hunain i fod yn LHBTC+ a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol fel rhan o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â than-gynrychiolaeth ar draws bob lefel o'r sefydliad,

## 8. Y Camau Nesaf

8.1 Byddwn yn datblygu **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol** gyda phwyslais ar ganlyniadau fydd yn amlinellu:

- Y camau rydym yn ceisio eu datblygu o dan bob un o'n hamcanion fydd yn gwneud gwahaniaeth positif i fywydau preswylwyr a gweithwyr.
- Pryd rydym yn disgwyl cyflawni'r amcanion hyn.
- Pwy sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â'r camau.
- Sut fyddwn ni'n mesur ein llwyddiant.

8.2 Gan adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddarparu ystod o wasanaethau ar gyfer pobl o fewn ein cymunedau. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu er mwyn adnabod a mynd i'r afael â throseddau casineb o fewn ein cymunedau, cryfhau'r broses o gasglu a dadansoddi data ar gyfer achosion o wahaniaethu a sicrhau bod ein preswylwyr yn gallu cyfranogi mewn ymgynghoriadau drwy amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys ymwneud wyneb yn wyneb.

8.3 Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a'r adborth o'r ymgynghoriad Amcanion Cydraddoldeb Strategol er mwyn cefnogi datblygu ein cynllun gweithredu. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei wneud yn derfynol yn haf 2024 ac yn cael ei ychwanegu at y cynllun hwn fel atodiad C.

## 9. Cyflawni'r amcanion

9.1 Bydd gallu cyflawni'r amcanion yn llwyddiannus yn gofyn am arweinyddiaeth gref sy'n cael ei gyrru yn bennaf gan yr Aelod Cabinet Dros Genedlaethau'r Dyfodol a Lles, ein Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor.

9.2 Bydd adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn digwydd yn rheolaidd i'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol. Sefydlwyd ein grŵp o Bencampwyr Cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn ystyried ac yn hyrwyddo cydraddoldeb yn gyffredinol ac mae ganddo rôl bwysig yn monitro ein cynllun cydraddoldeb strategol ac amcanion.

9.3 Mae'r cyfrifoldeb dros gyflawniad gweithredol yn eistedd gyda phob maes a thîm o fewn yr awdurdod. Mae pob Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phennaeth Gwasanaeth yn sicrhau bod gan eu gweithwyr y sgiliau priodol a'r wybodaeth am gydraddoldeb sy'n angenrheidiol. Mae ein Pwyllgor Cabinet Cydraddoldeb yn monitro yr hyn a gyflawnir yn erbyn yr amcanion ac yn craffu ar wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau ein bod yn adnabod ac yn gweithredu strategaethau ac amcanion newydd yn briodol.

9.4 Ein prif faes ffocws wrth fonitro cynnydd yw ymgymryd ag ymgynghori ac ymgysylltu rheolaidd pellach gyda phob un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith fod ein mesur mwyaf dibynadwy o lwyddiant o ran ein hamcanion cydraddoldeb yw drwy ein preswylwyr, defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr.

## 10. Asesu traweffaith neu botensial traweffaith ar grwpiau gwarchodedig.

10.1 Rydym wedi ymrwymo i asesiadau traweffaith cydraddoldeb polisïau, arferion a gweithdrefnau cyfredol a newydd ar bob grŵp cydraddoldeb drwy gynnal asesiadau traweffaith cydraddoldeb priodol. Mae ein tudalen Asesiad Traweffaith Cydraddoldeb ar gael ar Wefan y Cyngor.

10.2 Rydym hefyd wedi cynhyrchu pecyn Asesiad Traweffaith Cydraddoldeb sy'n cynnig canllawiau ymarferol ar gyfer rheolwyr gwasanaeth er mwyn ei ddefnyddio i gael mynediad at draweffaith debygol eu swyddogaethau, polisïau a gweithdrefnau ar wahanol grwpiau o bobl. Yn ogystal, mae staff yn cael eu hannog i ymgymryd â'r modiwl hyfforddiant corfforaethol.

## 11. Sut i gysylltu â ni:

Gellir cyflwyno sylwadau ac awgrymiadau i'n helpu ni i wella a pherfformio'n well fel sefydliad cyfle cyfartal ar unrhyw adeg i'r: Tîm Cydraddoldeb ac Ymgysylltu, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB
E-bost: equalities@bridgend.gov.uk
Ffôn: 01656 643664

## Fformatau hygyrch

Os hoffech chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith amgen, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Mae ein holl gyhoeddiadau ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn amrywiol fformatau o'n gwefan.